Ymgeisio Aspire
Ymroi Apply
Llwyddo Achieve

GYDA

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES
Academi 6ed Dosbarth
6th Form Academy

# RHAGLEN RAGORIAETH GALLUOG A THALENTOG

Mae gwneud cais i brifysgolion cystadleuol yn golygu mwy na graddau rhagorol yn unig. Rhaid i chi wneud dewis gwybodus ynghylch y pynciau yr hoffech eu hastudio, deall y broses a'r systemau dethol cystadleuol a chyflwyno ffurflen gais gaboledig a rhagori yn y cyfweliad.

Fel aelod o'r Academi Chweched Dosbarth, gallech fod yn gymwys i wneud cais am ein Rhaglen Ragoriaeth Galluog a Thalentog. Mae hon yn rhaglen arbenigol strwythuredig o gymorth ar gyfer y dysgwyr hynny â chanlyniadau TGAU eithriadol.

Bydd y rhai sy'n gwneud cais i brifysgolion cystadleuol, yn enwedig y rheini yn Grŵp Russell, Rhydychen a Chaergrawnt, wedyn yn derbyn cymorth personol drwy ein rhaglen GATE.

Yn 2017/18 cyflawnodd ein myfyrwyr y canlynol.

| Grŵp NPTC | Gradd | Cenedlaethol |
|---|---|---|
| 17.7% | A* | 8.7% |
| 53.4% | A*- A | 26% |

## BETH MAE'R RHAGLEN YN EI GYNNWYS?

### RHAGLEN DIWTORIAL ARBENIGOL

Os oes gennych broffil TGAU sy'n cynnwys tair A* a llawer o raddau A, gallech fod yn gymwys i wneud cais i'r rhaglen GATE a fydd yn darparu ar gyfer eich anghenion a'ch dyheadau. Y nod yw ehangu eich gorwelion y tu hwnt i'ch dewis bynciau a hyrwyddo rhesymu a thrafod dadansoddol.

Mae hyn yn amhrisiadwy o ran paratoi ar gyfer cyfweliadau prifysgol. Bydd rhai o'r meysydd a gwmpesir yn ystod sesiynau tiwtorial, yn cynnwys:

- Prosesau a nodau gwleidyddol
  Gwerthoedd, credoau a rhesymu moesol
- Goblygiadau moesegol ac amgylcheddol datblygiad gwyddonol.

### Y CYMHWYSTER PROSIECT ESTYNEDIG (EPQ)

Profiad o ysgrifennu traethawd hir ac ennill pwyntiau UCAS ychwanegol! Bydd y cymhwyster ychwanegol hwn yn eich paratoi yn ardderchog ar gyfer cwblhau eich ffurflen gais ar gyfer y brifysgol a'ch gyrfa yn y dyfodol.
Bydd yn rhoi cyfle i chi ymestyn eich galluoedd y tu hwnt i faes llafur safon U.

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

Ffôn: 01639 648450

www.nptcgroup.ac.uk



- Dod yn fwy beirniadol, myfyriol ac annibynnol yn eich dysgu
- Datblygu a chymhwyso sgiliau gwneud penderfyniadau a datrys problemau
- Cynyddu eich sgiliau cynllunio, ymchwilio, dadansoddi, syntheseiddio, gwerthuso a chyflwyno
- Dysgu sut i gymhwyso technolegau newydd yn hyderus
- Dangos creadigrwydd, symbyliad a menter.

## RAGLEN GYFOETHOGI

Bydd y Rhaglen Ragoriaeth Galluog a Thalentog hefyd yn rhoi mynediad ichi i'n gweithgareddau cyfoethogi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cymhwyster cyn-brifysgol Caergrawnt: Nod y rhaglen hon yw rhoi'r sgiliau sydd eu hangen i chi i lwyddo yn eich astudiaethau dilynol yn y brifysgol, sy'n cynnwys nid yn unig sylfaen gadarn yn y maes arbenigol, ond hefyd y gallu i gynnal dysgu annibynnol a hunangyfeiriedig a meddwl mewn ffordd ochrol, beirniadol a chreadigol
- Cyfle i gystadlu mewn cystadlaethau cenedlaethol fel yr Olympiadau Bioleg a Chemeg
- cymorth wedi'i deilwra wrth wneud cais i prifysgolion cystadleuol fel y Prifysgolion Grŵp Russell a Rhydychen a Chaergrawnt
- Gweithdai cyfweliad arbenigol
- Ymweliadau penodol ag Oxbridge ar gyfer Meddygaeth, Deintyddiaeth a Gwyddor Filfeddygol
- Mentora cymheiriaid rhwng myfyrwyr blwyddyn gyntaf Oxbridge a'n myfyrwyr ni eisoes ar waith
- Cyfle i fynychu cyflwyniadau a ddarperir gan siaradwyr gwadd, e.e. Cymdeithas Cemeg Frenhinol, Ysgol Feddygaeth Caerdydd, tiwtoriaid derbyn Oxbridge.

## HOW DO I JOIN THE GIFTED AND TALENTED EXCELLENCE PROGRAMME?

Applications are welcome from any student with three A*s and mainly A grade GCSEs. Other students can apply and will be admitted depending on the quality of their application and interview. In addition, students should be committed to achieving their personal best and be willing to undertake a wide range of activities designed to help them perform at the highest levels.

## WHAT WILL THE GIFTED AND TALENTED EXCELLENCE PROGRAMME COST?

Our GATE Programme is free but there are costs associated with residential trips and some speakers. If you have difficulty in meeting these costs, financial help may be available. Students should not see cost as a barrier to participation.

## RHWYDWAITH SEREN: CEFNOGI MYFYRWYR DISGLEIRIAF CYMRU

Mae Grŵp Colegau NPTC yn rhan o Rwydwaith Seren. Rhaglen i gefnogi myfyrwyr disgleiriaf Cymru fel eu bod yn cyflawni eu potensial academaidd ac yn cael mynediad i brifysgolion Grŵp Russell, Rhydychen a Chaergrawnt.

- Gweithgareddau cyfoethogi i wella a hyrwyddo rhagoriaeth academaidd
- Grŵp cymheiriaid o fyfyrwyr sy'n cyflawni'n uchel
- Cysylltiadau â myfyrwyr prifysgol a graddedigion diweddar o gefndiroedd tebyg.

*"Drwy Seren rwy' wedi gwneud ffrindiau newydd sy'n rhannu'r un diddordebau â mi. Mae Seren wedi fy ngwneud yn fwy hyderus am fy syniadau a'm barn."*

*"Mae Seren wedi gwneud imi sylweddoli fy mhosibiliadau ar gyfer y dyfodol."*

*"Mae Seren yn darparu nifer o gyfleoedd ar gyfer disgyblion sy'n anelu i gyrraedd lefelau uwch o addysg.
Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i mi."*

*"Mae Seren wedi ymestyn fy nealltwriaeth ar bynciau y mae gennyf ddiddordeb ynddynt."*

*"Mae Seren wedi fy ngalluogi i gredu y gallaf gyrraedd fy llawn botensial tra'n cynnig llawer o gyfleoedd i ddysgu am ddyheadau academaidd yn y dyfodol."*

*"Mae Seren wedi rhoi cyfle imi ymchwilio i'm diddordebau ac i gwrdd â myfyrwyr angerddol a brwdfrydig eraill sydd ar fy lefel i. Yr wyf wedi cael llawer o wybodaeth am wneud cais i Oxbridge gan Seren felly rwy'n teimlo'n hyderus nawr."*

## SUT LWYDDIANT CAWSON NHW?

### EVE VINCENT
A*, Ffrangeg; A, Saesneg; A Hanes. Mynd i astudio Ffrangeg a Rwsieg ym Mhrifysgol Caergrawnt.

### ABIGAIL OWEN
A, Drama ac Astudiaethau Theatr; A, Cerddoriaeth; B, Mathemateg;  B, Saesneg Llenyddiaeth. Mae Abigail yn mynd i astudio Cerddoriaeth yng Ngholeg Iesu, Rhydychen.

### FINLAY POWELL-JONES
A*, Mathemateg; A*, Bioleg; A* Cemeg. Cyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Cwmtawe yn mynd i Brifysgol Birmingham i astudio Meddygaeth. "Amser gwych yn y Coleg – roedd y gefnogaeth yn wych ac mae hynny'n dangos yn fy nghanlyniadau heddiw!".

### STEPHEN JOHN
A*, Cemeg; B, Ffiseg; B, Cerddoriaeth.  Yn mynd i astudio Meddygaeth Filfeddygol ym Mhrifysgol Surrey.

### SAM MORRIS
A, Mathemateg; B, Cemeg; B, Bioleg. Cyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Llangatwg, nawr yn mynd i astudio Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

### ALEX MORRIS
A, Bioleg; B, Cemeg; B, Addysg Gorfforol. "Mae'n rhyddhad bod y cwbl ar ben", dywedodd y cyn-ddisgybl Dŵr-y-Felin. Mae nawr yn edrych ymlaen at astudio'r Gwyddorau Meddygol ym Mhrifysgol Caerwysg.

## JORDAN WHAPHAM

A, Mathemateg; A, Ffiseg; B, Bioleg. Mynd i Brifysgol Caerdydd i astudio Astroffiseg.

## INDIA NEEDS

A*, Y Gyfraith; A* Astudiaethau Crefyddol; A, Seicoleg. Cyn-ddisgybl Dyffryn yn mynd i astudio'r Gyfraith ac Astudiaethau Ewropeaidd ym Mhrifysgol Southampton.

## CAMRON GRIFFITHS

A, Y Gyfraith; A, Cymdeithaseg; B, Hanes; A, Bagloriaeth Cymru. Cyn-ddisgybl Gellifedw ym mynd i Brifysgol Caerdydd i astudio'r Gyfraith a Gwleidyddiaeth.

## CAITLIN JOHN

A*, Bioleg; A, Mathemateg: B, Cemeg. Cyn-ddisgybl Llangatwg yn mynd i Brifysgol Caerdydd i astudio Radiotherapi ac Oncoleg.



Ymgeisio Aspire
Ymroi Apply
Llwyddo Achieve

GYDA

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES
Academi 6ed Dosbarth
6th Form Academy


**Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Cyd-gysylltydd Galluog a Thalentog:**
**Bernadine McGuire: bernadine.mcguire@nptcgroup.ac.uk 01639 648373**

**Academi 6ed Dosbarth, Coleg Castell-nedd, Heol Dŵr-y-Felin,**
**Castell-nedd, SA10 7RF Ffôn: 01639 648450**

www.nptcgroup.ac.uk


GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES